Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
**Higher Education Funding
Council for Wales**

hefcw

# Working with us



Noddir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# About us

HEFCW's mission is to promote internationally excellent higher education in Wales, for the benefit of individuals, society and the economy, in Wales and more widely.

We distribute funds to the 11 higher education institutions in Wales and the Open University in Wales, to support education, research and related activities.

Through our open and transparent funding system, we focus our support for the sector on:

- Promoting the development of **learning and teaching**, particularly the **quality** of the learning experience;
- Investing in a **strong research base** and developing **research excellence**;
- Encouraging activities in higher education that support **business and the community**;
- **Widening access** to higher education;
- Supporting development of **Welsh language** higher education;
- **Strengthening the sector** - with an emphasis on encouraging reconfiguration and collaboration, financial sustainability, effective leadership and governance, European and international developments, and maintaining the estate; and
- Accrediting and funding providers of **initial teacher training** courses in Wales.

HEFCW was established by the Further and Higher Education Act 1992. We are an Assembly Government Sponsored Body and, in addition to our funding responsibilities, we provide advice to the Welsh Assembly Government on the funding needs, aspirations and concerns of the higher education sector in Wales.

# Our culture

HEFCW aims to be an organisation of individuals who:

- Work well individually and in groups, to high standards;
- Like challenges and to challenge others;
- Take ownership of their specific responsibilities and for HEFCW as a whole;
- Work in an informal, open and sharing way; and
- Learn from and support one another and welcome diversity.

We place importance in our core values. We're dedicated to acting with integrity, by being consistent, truthful, honest and frank in our communication. We are committed to valuing and supporting each other in our work and strongly believe in partnership working. We strive to be forward-thinking, always looking for new opportunities, and planning and assessing risks effectively. And we're a professional organisation, always on the lookout to improve our ways of working.

# Your rewards

## Pay and Benefits

We believe that your reward for the work you do is more than about just offering a good financial package. As we know that a healthy work-life balance goes a long way to making HEFCW an enjoyable place to work, most posts operate within the flexible working hours scheme. We also have a suite of flexible working policies.

We offer a generous annual leave entitlement of 28 days paid leave per year, rising to 30 days after 5 years' service and 33 days after 10 years' service.

You'll also have the option to become a member of the Principal Civil Service Pension Scheme (PCSPS), an excellent benefit that will help you later in your life.

## Training and Development

We understand the importance of having highly-skilled, well-trained professionals in our organisation. We are committed to the Investors in People standard and to ensuring that our employees receive the best support.

We'll involve you in your performance assessment, setting your objectives and identifying training or coaching that will help you carry out your role more effectively.

We anticipate you'll get a great sense of achievement from your role.

# Equality, diversity and the Welsh language

HEFCW warmly welcomes applications from all sections of the community. Applications will be made on merit.

We are committed to equality of opportunity and ensure that all applicants and current employees are treated fairly, irrespective of gender, age, marital status, disability, sexuality, and racial or ethnic origin.

We have produced Equality Schemes for Disability, Race and Gender.

Through our Welsh Language Scheme, we are committed to treating the Welsh and English languages on the basis of equality in the conduct of our public business in Wales. We therefore welcome applications and correspondence in both Welsh and English.

# Contact us

Now that you know all about us, we'd like to know about you and look forward to receiving your completed application.

You can contact our HR Department by telephone, email or post:

HEFCW
HR Department
Linden Court
The Orchards
Ilex Close
Llanishen
Cardiff
CF14 5DZ

Tel: 029 2076 1861
Fax: 029 2068 2220
Email: hrdepartment@hefcw.ac.uk
Website: www.hefcw.ac.uk

This document is available online, in large print, Braille and available electronically via email or CD. Should you or someone you know require this in an alternative format, please contact us.

# Cysylltu â ni

Nawr eich bod chi'n gwybod pob dim amdanom ni, rydym ni am ddod i'ch adnabod chi. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Gallwch gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar y ffôn, e-bost neu drwy'r post:

CCAUC
Adran Adnoddau Dynol
Cwrt Linden
Y Berllan
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn: 029 2076 1861
Ffacs: 029 2068 2220
E-bost: hrdepartment@hefcw.ac.uk
Gwefan: www.hefcw.ac.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print mawr, Braille ac yn electronig trwy'r e-bost neu ar CD. Cysylltwch â ni os ydych chi neu rywun arall angen y ddogfen mewn fformat gwahanol.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a'r iaith Gymraeg

Mae CCAUC yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned. Gwneir pob penodiad ar sail gallu.

Rydym yn ymroddedig i gyfle cyfartal, gan sicrhau bod yr holl ymgeiswyr a gweithwyr cyfredol yn cael eu trin yn deg, beth bynnag fo'u rhyw, oedran, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a tharddiad hiliol neu ethnig.

Rydym wedi cynhyrchu Cynlluniau Cydraddoldeb ar gyfer Anabledd, Hil a Rhyw.

Drwy ein Cynllun Iaith Gymraeg, rydym yn ymroddedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni'n dyletswyddau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn croesawu ceisiadau a gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

# Eich buddion

**Tâl a Buddion**

Bydd eich tâl am weithio i ni yn mynd ymhellach na phecyn ariannol da. Gwyddom fod cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith yn hanfodol i sicrhau bod CCAUC yn lle da i weithio, felly mae'r rhan fwyaf o swyddi yn cynnig oriau gweithio hyblyg. Mae gennym gyfres o bolisïau gweithio hyblyg hefyd.

Rydym yn cynnig gwyliau â thâl hael iawn o 28 diwrnod y flwyddyn, sy'n codi i 30 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth a 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), a fydd o gymorth mawr i chi yn ddiweddarach yn eich oes.

**Hyfforddiant a Datblygiad**

Rydym yn deall pwysigrwydd cael gweithwyr proffesiynol hynod fedrus sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn ein sefydliad. Rydym yn ymroddedig i'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl ac i sicrhau bod ein gweithwyr yn cael y cymorth gorau posibl.

Byddwn yn eich cynnwys yn y broses o asesu'ch perfformiad, pennu'ch amcanion a nodi hyfforddiant a fydd yn eich helpu i wneud eich gwaith yn fwy effeithiol.

Rydym yn rhagweld y cewch foddhad mawr o'ch gwaith.

# Ein diwylliant

Nod CCAUC yw bod yn sefydliad o unigolion sy'n:

- Gweithio'n dda i safon uchel fel unigolion ac mewn grwpiau;
- Mwynhau heriau a herio eraill;
- Ysgwyddo cyfrifoldeb am eu dyletswyddau penodol ac am CCAUC yn gyffredinol;
- Gweithio mewn ffordd anffurfiol, agored a chydweithiol; ac yn
- Cynorthwyo'i gilydd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd, gan groesawu amrywiaeth.

Mae ein gwerthoedd craidd yn hollbwysig i ni. Rydym yn ymroddedig i weithredu'n ddidwyll, trwy gyfathrebu mewn ffordd gyson, gywir, gonest a phlaen. Rydym yn ymroddedig i werthfawrogi a chefnogi'n gilydd yn ein gwaith ac yn credu'n gryf mewn gweithio mewn partneriaeth. Rydym am fod yn arloesol, gan fynd ati'n barhaus i chwilio am gyfleoedd newydd, a chynllunio ac asesu risgiau'n effeithiol. Rydym yn sefydliad proffesiynol sy'n mynd ati i geisio gwella ein dulliau gweithio'n gyson.

# Amdanom ni

Cenhadaeth CCAUC yw hybu addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Rydym yn dosbarthu arian i'r 11 sefydliad addysg uwch yng Nghymru ac i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, er mwyn cefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig.

Drwy ein system ariannu agored a thryloyw, mae ein cymorth i'r sector yn canolbwyntio ar:

- Hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu **dysgu ac addysgu**, yn enwedig **ansawdd** y profiad dysgu;
- Buddsoddi mewn **sylfaen ymchwil gref** a datblygu **rhagoriaeth mewn ymchwil**;
- Hybu gweithgareddau ym maes addysg uwch sy'n cynorthwyo **busnes a'r gymuned**;
- **Ehangu mynediad** i addysg uwch;
- Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu addysg uwch **cyfrwng Cymraeg**;
- **Cryfhau'r sector –** gyda phwyslais ar hybu ail-gyflunio a chydweithio, cynaliadwyedd ariannol, arweiniad a llywodraethu effeithiol, datblygiadau Ewropeaidd a rhyngwladol, a chynnal yr ystâd; ac
- Achredu ac ariannu darparwyr cyrsiau **hyfforddiant cychwynnol athrawon** yng Nghymru.

Sefydlwyd CCAUC gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Rydym yn Gorff Llywodraeth a Noddir gan y Cynulliad, ac yn ogystal â'n cyfrifoldebau ariannu, rydym yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon ariannu y sector addysg uwch yng Nghymru.

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
**Higher Education Funding**
**Council for Wales**

hefcw

# Gweithio gyda ni



Noddir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government